# BALAD

## NEWYDD

Yn Cynwys Dwy GERDD

Yn gyntaf CAROL Plygain

Yn ail o ymddiddan rhwng Gwr Ifangc ai gariad sef RODRIC LLWYD a SARA, pa rai a ymgredodd ar gilydd, ond y Mab a Bressiwyd ag a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel; ar ymddiddan fu rhwng ei Ysbryd ef a hithau wedi ei farw.

University College of Wales Aberystwyth Salesbury Library

*Trefriw Argraphwyd*

*Cenwch ar Drymder.*

HOLL blant y byd, rai clyd o clowch,
Deffrowch drwy ffydd,
I foli 'r Iesu yn dirion dowch
Cyn torri 'r dydd,
Cyd tyrru wnant cantorion Ne,
Heddyw yn llawen iawn eu lle
I addoli Duw ei ddeilied ê;
Dedwiolaf daith,
Cyd unwn ninnau dan y nenn;
Ir Anglwydd Iôr ein Pôr an pen,
Fel pettai ynghae'r Nefoedd wenn
Ein hufudd waith.

2 Rol pasio 'r galar dyma'r dydd,
Di-ammau y daeth;
I ni mewn trefn ymwared rhydd;
On cystudd caeth;
Gorfoledd mawr sydd heddyw o hyd,
O herwydd geni Crist ir byd;
Dowch dowch dan ganu o godi i gid,
A chyda 'r gair;
Ag awn i *Fethlem* bawb on bodd,
Fel tyrfa o ras at aur fawr rodd;
I weled Iesu lana modd, ar linie *Mair*.

Rol darfod gynt am *Efa* ei gwr,
Ou cyflwr cu,
Yn erbyn Duw trofeddu yn siŵr,
Creawdwr cry;
Am hyn tosturie 'r Nefod Dâd,
Ag wrthom ni oll creaduriad nad;
Ni wnaeth mo'n bron i eitha brad;
Blin anfad blaen;
Danfone ei anwyl fab ei hun;

In fwyn o Uffer bod ag un ;
Yn awr yr ŷn, fel Defaid pryn ar dyddyn dâ.
4 Mae Efengyl Grift yn eglurhau
Fe glywir hyn,
Ai lloll weithredoedd nhw yma 'n glau
Ymhob glyn ;
Y rhain fy batrwm clir i ni,
Pa fodd i ddilyn un Duw tri ?
Ag ennill trigfa ucha fri mewn uchel fraint,
Ag oni wnawn mewn perffaith rwydd,
Yn ol y geiriau hyn yn rhwydd ;
Nid allwn ni byth mo ledio 'n fwydd ;
I wlad y Saint ;
5 Fy mrodyr anwyl mewn da rhyw,
Pa fodd yr awn ;
I lys y bywyd gwynfyd gwiw,
O ddiftryw ddawn ;
Rhaid bod gwir ffŷdd ag onid e
Mae 'r ffordd yn gul i fyn'd ir Ne ;
Hawdd iawn iw tripio a llithro ir lle,
Mewn llwybre l'on
Mae rhaid ymddiofg yr hen ddyn
A gwifgo 'r newydd mewn da lun
A chael cyfarwyddyd Iôr ei hun ir yrfa hon
Nid wrth garu chwantau 'r cnawd,
Na dilyn plefefer ofer wawd ;
Ni wneiff y rhain ond pwyfo ar ffawd ;
Pan bafio 'r ffun ;
Ond rhoddi ein bryd an hegni yn glau
Am wrthod pechod ai gafau
Ag effyn gras rhag eifie a gwau
Gan Iefu gwynn.

6 Fo ddaw y dydd di gur ag awr
O'r dyrfawr dân ;
I losgi'r byd ai ochain mawr
Yn wreichion mân ;
Lle byddwn ninne yn oer ein gwawr
Pan glywom lais ein Barnwr mawr
Yn ein galw ni oll or Ddaear lawr
I ddu oer le;
Wrth sain yr Udcorn clywn yn glir
Rhaid inni gychwyn bawb or tir
A dringo ir farn drwy barthau yn wir
At byrth y Né.
7 O flaen y Barr daw gwir in rhan
Trwy gywir hedd
Gwan rai drwg oi trawster gwan
Bydd trist eu gwedd
Pan ddaeth o Crist ein Barnwr glan
Ai wyneb doeth fel fflam o dan
Ewch ewch i Uffern lawr a mân
Ar fyrr o'n mysc ;
O deced fydd ein llywydd llawn
Yn galw eu ffyddlon weision iawn
Dowch ol im Teyrnas uchel ddawn
Lle mae i chwi ddysc.
Fe fai y bai or Cryd ir bedd
Ar ddyn ei hunan yn ddibedd
Ag oni thry a *mendio* i wedd er mwyn Duw Ion
Ir ym ni 'n cysgu Crist ai gwyr
Ymol y budrel fiedd ffwys
Chyn relo hi arnom yn rhy hwyr
Llwyr llwyr wellawn ;
Ag onid ê bydd doft ein fîtes;

Yngwaelod Uffern gethern gas;
Ag oni achub Duw ni ai rasa ow yno yr awr
8 Pwy na'molyne heno 'n fwyn am hyn o fael
Er howfed iddo trwy a chwyn iddo ei chael
Wrth glywed llais Nefolion llon,
Yn cario newyddion ger ein bron
Pa Griftion hynod ar lin lion na lawenha
Mae fe gwedi gwneud ei ran
A ninne'n ol ymhob rhyw fan
Paham y byddwn ni fyth o dan y fath don,
9 Dechreuwn heddyw trwy iawn hedd,
Droi yn ein hol
A buchedd newydd ufudd wedd; o puredd *Paul*
Gogoniant fo 'n y Nefoedd wiw
Tangnefedd ar y ddaear ryw
Ag i ddynion ewyllys Duw ai wllys da
10 Dau cant ar bymtheg iawndeg Oed
Oedd ein Duw gwyn
A naw a thrugain cyflawn oedd cyflawnir hyn,
Fel yr oedd yn dechreu mae ô 'nawr
Felly bydd o'n llyw o uwch y llawr;
Rhown fofiant iddo ai a lu mawr oll yn ben
Gogoniant fyth a fyth o'r Tâd;
Ar Mab ar Yfpryd trwy iawrhad;
Yn un a thri mewn perffaith rad heb wad *Amen*.

*Ar y Don Fechan.*

DOWCH yn nes gwrandewch efample
Or Cynimyle daw eafode
Nid oes yn y byd na dderfydd
Ond gras Duw a chrêd a Bedydd;

Am ddau oedd yn byw 'n yr ynys
A rhain ar feddwl byw 'n gariadus
A newid dwy gred nhŵ a wnaethon
I gael priodas yngwydd dynion

Pryd y daeth y ffrins ar Goron
I hel Gwyr i fynd ir *Werddon*
Fel yr oedd Duw yn gwyllysu
Y mab fo aeth yn un o rheini

Pryd yr aeth o gynta 'r *Werddon*
Fo syrthie ymhlith *Gwyddelod* gwylltion
Dyne 'r fan lle bu farwolaeth
Roedd hyn yn fyndod mawr ysywaeth

Er bod ei gorph o wedi gladdu
Nid oedd yr Enaid haws er hynny
Bu fo bedair blynedd cymwys
Cyn cael myned i *Baradwys*

Na dim gorphwys mwy na 'r Tonnê
Ond am ei gréd ir fan lle rhoese
Fo ddanfone Duw heb wybod
Fo ar gefen un or *Gwylanod*

Pan y daeth o i *Dir* yr *Ynys*
Ir fan lle rhoese gred ai wllys
Fo ddisgyne ar Tywod
Lle 'roedd iddo beth cydnabod.

Tu fewn i filltir neu lai na hynny
Lle 'roedd y mwya a garsai 'n cysgu

at

At y drŵs fe ae 'r Enaid
Ni chlywai fo yno neb yn atteb

Fe ae at y Ffenestr wrth y *Gwely*
Lle 'roedd y mwya a garsai yn cysgu
Yn y man a hi attebai
Yn sur iawn yn sal ei geirie.

Yn enw Duw o pwy sydd yna
Gefn y nos yn galw am dana
O *Sara Sara* swyn nag ofna
Mae yma 'r Mab dy garodd fwya

Yn dod i ymofyn ynghrêd attat
Byth ond hyn ni thrwbla monat
Ond addawsoch fy mhriodi
A llawer *Promise* efo hynny.

Cwblhaed pawb ei *Pwyntmanne*
Trwy nerth Duw ni chilie finne
Pa fodd y gallaf fi'ch priodi
Pan bo fy nghorph i wedi gladdu.

Yn Nhir y *Iwerddon* wrth Ryfela
Nid oes ond fy hudoliaeth i yma
Chwi gawsoch roddiad mawr gan *Dduw*
Gael codi i fynu o farw i fyw.

Hi neidie i fynu yn ei mein.grys
Ag at y Ffenestr ae hi'n awchus
Ag er maint yr wy'n eich clywed
Yn fy myw na chawn mo'ch gweled

Coelia coelia gwen lliw'r ewin
dwy fwy fym na gwybedyn
*Rodric Llwyd* bym yn dy garu;
ag y rwan fwy'n dy ofni.

Yffyn dith law rhyng dwy biler
Hwde 'th gred *Duw* ro i ti efmwythder;
Hwde dithe th Gred *Sara*;
I fy Nuw y fi gonffefa

Ni bu mi a wnaeth un ferch ar aned
Er pryd y darfu newid dwygred;
Ir wyf finne mor ddifeie
ar ferch fechan fy ar y bronne
Yn eich aros chwithe *Rodric* adre;

*Sara* wen o does ith wely
*Duw* ro efmwythder iti gyfgu
Nid ailai aros ond hyn yma
Waith angylion nef fyn galw am dana

*Sara* a drodde at ei gwely
dan godi dwylo ag ymgroefi,
a than wylo 'r dwr oi llygaid
O edifeirwch fod cyn fuled.

*TERFYN*

UNIV. COLL. OF N. WALES AND ... SALESBURY LIBRARY